**Ken Skates AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Cabinet Secretary for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Russell George AC
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

16 Mai 2018

Annwyl Russell,

Yn dilyn cyfarfod Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar 25 Ebrill 2018, rwy'n ysgrifennu atoch fel yr addawyd am benodi Cadeirydd dros dro Trafnidiaeth Cymru.

Gan ddilyn y broses Penodiadau Cyhoeddus, cafodd Nick Gregg ei benodi'n Gyfarwyddwr Anweithredol Bwrdd Cwmni Trafnidiaeth Cymru ym mis Gorffennaf 2017. Dywedodd Panel Asesu Cynghorol y broses wrtha' i bod Mr Gregg yn ymgeisydd eithriadol a bod ganddo brofiad helaeth fel cyfarwyddwr gweithredol.

Ac yntau ar fin cael ei secondio i Trafnidiaeth Cymru fel Prif Swyddog Gweithredol, ymddiswyddodd James Price, Dirprwy Cadeirydd y Bwrdd ar y pryd (grŵp ESNR), ym mis Tachwedd 2017. Er mwyn sicrhau bod gan y cwmni Gadeirydd yn ystod cyfnod trafod contract newydd y gwasanaethau rheilffyrdd, defnyddiais fy mhwerau i benodi heb gystadleuaeth er mwyn penodi Mr Gregg yn Gadeirydd dros dro am hyd at 12 mis. Cafodd y penodiad ei wneud gan gofio y byddai'r broses arferol ar gyfer penodi Cadeirydd newydd wedi'i chwblhau yn yr amser hwnnw. Dewisais Mr Gregg fel Cadeirydd Dros Dro gan ei fod yn cynnig profiad i Fwrdd Trafnidiaeth Cymru o arwain timau trwy gyfnodau o newid, yn ogystal ag o helpu busnesau i weddnewid.

Yn unol ag amodau a thelerau eu penodiad, rhaid i bob aelod o'r Bwrdd ddatgan yn gyhoeddus eu holl fuddiannau preifat a allai wrthdaro neu y gellid dehongli eu bod yn gwrthdaro â'u dyletswyddau ar y Bwrdd. Dylid cyhoeddi pob buddiant ariannol. Caiff yr wybodaeth hon ei chyhoeddi ar wefan Trafnidiaeth Cymru ddiwedd mis Mai.

Yn gywir

Ken

**Ken Skates AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for Economy and Transport

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.